Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD LLUN 23 TACHWEDD 2020 am 1.30 o'r gloch | | MONDAY 23 NOVEMBER 2020 at 1.30 pm |
| CYFARFOD ARBENNIG RHITHOL - (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD) | | VIRTUAL EXTRAORDINARY MEETING (AT PRESENT, MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020.

3 **ADOLYGIAD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

4 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2021/22** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **NEWIDIADAU I ABSENOLDEB MABWYSIADU AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# CYFARFOD ARBENNING O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Sgriwtini (SR)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (FL)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel cofnod cywir:-

- 10 Rhagfyr 2019
- 30 Ionawr 2020 (Cyfarfod Arbennig)

**3. ADOLYGIAD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 25 Medi 2019, fel rhan o adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir.

Nodwyd fod y comisiwn wedi cyhoeddi adroddiad drafft a chynigion yn ddiweddar a'u bod wedi gofyn am sylwadau ar drefniadau etholiadol y Cyngor, yn cynnwys enwau wardiau, erbyn 14 Medi 2020.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod cynigion y Comisiwn Ffiniau wedi eu hystyried a'u derbyn gan Arweinyddion Grwpiau y Cyngor a Phanel Trawsbleidiol. Nododd fod y Comisiwn wedi cefnogi achos ac argymhellion y Cyngor i gael 35 Aelod a 14 Ward, gyda dim newid i 6 ward etholiadol, gan olygu cyfartaledd

sirol o 1,461 o etholwyr i bob Aelod. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno'r trefniadau newydd mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr enw arfaethedig 'Braint' ar gyfer ward etholiadol Bro Rhosyr. Nododd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog yn teimlo fod yr enw newydd yn amhriodol. Roedd yn argymell fod yr enw yn cael ei newid i 'Bodowyr', sydd â chysylltiad lleol cryf gan fod afon Bodowyr yn llifo o fewn ffiniau hanesyddol a daearyddol yr ardal.

Mynegwyd pryder nad oedd rhai Cynghorau Tref / Cymuned wedi ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn hyd yma. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi ysgrifennu at bob Cyngor Tref / Cymuned yn ddiweddar yn gofyn iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau yr hoffent eu cyfrannu i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir bod y cynigion a nodir yn adroddiad y Comisiwn Ffiniau yn cael eu derbyn, yn amodol ar newid yr enw ar gyfer ward newydd Braint i 'Bodowyr'.**

## 4. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y mesurau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2019/20.

Mae Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn galluogi Aelodau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau. Amlygodd y Cadeirydd bwysigrwydd cwblhau'r adroddiadau blynyddol, er mwyn ehangu atebolrwydd lleol a hysbysu'r cyhoedd am rolau a chyfrifoldebau Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yr adroddiadau blynyddol a dderbyniwyd dros yr wythnosau diwethaf bellach wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Nododd fod 6 adroddiad blynyddol bellach yn weddill.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. TALIADAU I AELODAU – ADRODDIADAU PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) sy'n gosod y lwfansau sy'n daladwy i Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig a hawliau pleidleisio.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod cynigion drafft y panel ar gyfer 2020/21 wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 10 Rhagfyr, 2019. Nododd y cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol drafft ym mis Chwefror 2020, gyda dim newidiadau pellach i'r drafft, heblaw am gynnydd o £350 yng nghyflog sylfaenol yr Aelodau. Nodwyd fod Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr y Cyngor ar gyfer 2020/21 wedi'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at egwyddorion y Panel ar ddigolledu costau gofal, a ddaeth yn weithredol ar 1 Gorffennaf 2020. Mae'r Panel yn bryderus bod y niferoedd sy'n hawlio'r ddarpariaeth yn isel ac mae wedi ceisio amlinellu gwell diffiniad o'r meini prawf. Mae'r Panel wedi gofyn i Awdurdodau Lleol godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau fod y cymorth ariannol ar gael ac mae argymhelliad wedi'i wneud bod adolygiad blynyddol o amgylchiadau pob Aelod yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn ystod eu gwerthusiadau blynyddol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi ysgrifennu at bob Aelod yn egluro'r canllawiau ar gostau gofal a nododd bod hefyd modd gweld y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr ar gyfer 2020/21, yn unol â'r gofynion.**
- **Nodi bod yr egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal a chadarnhau sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi'r egwyddorion ar waith, fel y nodir yn Atodiad 1.**

## 6. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

Adroddodd y Pennaeth gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 8 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn crynhoi materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019.20, sy'n cynnwys y canlynol:-

- Y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol.
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Materion cysylltiedig ag Aelodau yn cynnwys – Siartr Cymru ar gyfer Datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Ymgynghoriadau perthnasol Llywodraeth Cymru yn cynnwys trefniadau etholiadol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **23 Tachwedd 2020** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried argymhellion terfynol y Comisiwn a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir.** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau cyfnodol o drefniadau etholiadol prif ardaloedd Cymru, yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Y bwriad yw cyflwyno newidiadau erbyn etholiadau 2022.

1.2 Ar 25 Medi 2019, fe gymeradwyodd y Pwyllgor hwn gynigion cychwynnol a baratowyd fel rhan o'r adolygiad. Bu i'r Cyngor dderbyn argymhellion y Pwyllgor hwn ar 7 Hydref 2019 gan argymell model yn seiliedig ar 14 ward a 35 Aelod.

1.3 Ar 16 Mehefin 2020, fe gyhoeddodd y Comisiwn eu cynigion drafft ar gyfer ymgynghori - roedd y cynigion hyn yn gyson ag argymhellion y Cyngor hwn ar 7 Hydref 2019. Fe gyflwynwyd y cynigion drafft i'r Pwyllgor hwn ar 30 Gorffennaf ac i'r Cyngor Llawn ar 8 Medi 2020.

## 2.0 Argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau

2.1 Fe gyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau eu hargymhellion terfynol ar 12 Tachwedd 2020. Mae holl argymhellion y Cyngor wedi'u derbyn, gan gynnwys newid enw un ward newydd o Braint i Bodowyr. Mae'r argymhellion terfynol ar gael ar y ddolen ganlynol:

https://cffdl.llyw.cymru/adolygiadau/11-20/argymhellion-terfynol-ar-gyfer-ynys-mon

2.2 Rhestrir isod y 14 ward etholedig a 35 aelod, sy’n golygu cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,461 yr aelod:

| **Enw’r ward** | **Nifer o gynghorwyr** |
|---|---|
| Aethwy | 3 |
| Bodowyr | 2 |
| Bro Aberffraw | 2 |
| Bro’r Llynnoedd | 2 |
| Canolbarth Môn | 3 |
| Cefni | 2 |
| Crigyll | 2 |
| Lligwy | 3 |
| Parc a’r Mynydd | 2 |
| Seiriol | 3 |
| Talybolion | 3 |
| Tref Cybi | 2 |
| Twrcelyn | 3 |
| Ynys Gybi | 3 |
| Cyfanswm: | **35** |

2.3 Ar ôl derbyn yr adroddiad, gall Llywodraeth Cymru, os gwêl fod hynny’n briodol, wneud gorchymyn i weithredu unrhyw argymhellion a wneir iddo gan y Comisiwn naill ai fel y’u cyflwynwyd neu gydag addasiadau. Ni chaiff unrhyw orchymyn i weithredu argymhellion o’r fath gael ei wneud nes bod chwe wythnos i’r dyddiad y cyflwynwyd y argymhellion i Llywodraeth Cymru wedi mynd heibio.

2.4 Bwriedir cyflwyno adroddiad y Comisiwn i’r Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2020.

## 3.0 Argymhellion

Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau ac, yn amodol ar unrhyw sylwadau pellach, argymell i’r Cyngor Sir bod yr argymhellion terfynol yn cael eu derbyn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**12 Tachwedd 2020**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **23 Tachwedd 2020** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2021/22** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad ar gynigion drafft y Panel ar gyfer 2021/22** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2021/22 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad sy'n cau ar 23 Tachwedd 2020. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2021.

## 2.0 Cyflog Sylfaenol

Bydd y cyflog sylfaenol yn 2021/22 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn **£14,368** – cynnydd o £150, yn weithredol o 1 Ebrill 2021 oni fydd unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm is.

## 3.0 Uwch Gyflogau

### 3.1 Nifer yr uwch gyflogau

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn dal i sefyll, hy cyfanswm o 16 i Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

### 3.2 Y Bandiau Uwch gyflogau

Yn 2021, bydd uwch gyflogau (taliadau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith, cadeiryddion pwyllgorau ac arweinydd yr wrthblaid) yn cynyddu ar yr un gyfradd (1.06%) â chyflogau sylfaenol:


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Uwch Gyflogau 2021/22 (sy’n cynnwys y cyflog sylfaenol) a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021: | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£44,921**<br>**£31,783** |
| **Band 2** | Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith | **£27,741** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y’u telir) | **£23,161** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | **£23,161** |
| **Band 5** | Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall | **£18,108** |

### 3.3 Cyflogau Dinesig

O’r blaen, roedd y Panel wedi caniatáu i gynghorau amrywio cyflogau penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig er mwyn adlewyrchu’r cyfrifoldebau penodol sy’n perthyn i’w swyddi. Fodd bynnag, mynegodd cynghorau’n gryf wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud penderfyniadau a chafwyd gwared ar ddewisiadau ac opsiynau o’r fath yn 2019. O 1 Ebrill 2021, mae'r Panel wedi penderfynu y dylid talu:

**£23,161** (Band 3) i bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu) a
**£18,108** (Band 5) i ddirprwy bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu).

Mae’r swyddi hyn yn cael eu cynnwys yn y cap.

## 4.0 Taliadau i Aelodau Cyf-etholedig

Mae’r Panel yn cynnig cynnydd o £12 yng nghyfradd dyddiol aelodau cyfetholedig arferol ac i’r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'r penderfyniadau wedi'u nodi isod, a rhaid i’r Cyngor:

- ddweud wrth aelodau cyfetholedig beth yw enw'r swyddog penodol a fydd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt ar gyfer eu hawliadau; a

- rhoi gwybod i'r swyddog hwnnw am yr ystod o daliadau y dylid eu gwneud.

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £268<br>(4 awr a mwy)<br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £238 o ffi ddyddiol<br>(4 awr a mwy)<br>£119 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorau tref a chymuned sy’n eistedd ar bwyllgorau safonau prif gynghorau | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 5.0 Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

Mae'r Panel wedi adolygu trefniadau'r cymorth ariannol hwn ac mae'n cynnig y newidiadau canlynol:

a) Gan fod taliadau'n drethadwy o dan reolau presennol CThEM, nid yw ad-daliad llawn yn bosibl felly i fod yn glir bydd yn cael teitl newydd sef "Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol". Bydd angen derbynebau gyda hawliadau o hyd.

b) Gellir gwneud hawliad mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 mlwydd oed neu berson ifanc dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth.

c) Eglurhad ynghylch anghenion gofal neu gymorth yr aelod ei hun: Gellir hawlio ad-daliad pan nad yw'r cymorth a/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael gan yr awdurdod, neu pan nad yw'r awdurdod yn talu'n uniongyrchol amdanynt, megis Mynediad i Waith, Taliadau Personol, Yswiriant. Gallai'r rhain ddod i'r amlwg pan fo'r anghenion yn rhai diweddar a/neu dros dro.

Mae'r Panel wedi adolygu'r taliad misol uchaf gan gydnabod nad yw wedi newid ers sawl blwyddyn. Mae gwybodaeth yn dynodi bod costau misol a hawliadau yn amrywio'n sylweddol. Gall y rhain ddibynnu ar nifer y dibynyddion, eu hoedrannau a ffactorau eraill. Felly, bydd y trefniadau canlynol yn disodli'r cap misol:

- Ad-dalu costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn llawn.

- Ad-dalu costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

I fod yn glir, ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod.

## 6.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22 ac os yw'r Pwyllgor yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**11/11/20**

Papur Cefndirol: Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, 2021/22: https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2021-i-2022

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **23 Tachwedd 2020** |
| **Teitl:** | **Newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau awdurdodau lleol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adrodd ar y newidiadau arfaethedig ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd** |

**1.0 Cefndir**

**1.1.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy swydd etholedig.

**1.2.** Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod yr anawsterau o ran cydbwyso rôl heriol bod yn gynghorydd â chyfrifoldebau personol gofalu am anwyliaid. Gallai heriau'r rôl, sensitifrwydd llawer o'r gweithgareddau a gyflawnir a disgwyliad cynyddol y cyhoedd bod cynghorwyr 'ar ddyletswydd' 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos atal unigolion rhag rhoi ystyriaeth ddifrifol i fod yn gynghorydd.

**1.3.** Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau a gofynnir am farn erbyn 29 Rhagfyr 2020. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori yma:
https://llyw.cymru/absenoldeb-mabwysiadu-i-gynghorwyr-awdurdodau-lleol

**2.0 Y trefniadau presennol ar gyfer absenoldeb teuluol**

**2.1** Cyflwynodd Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") hawliau i gyfnodau o absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, pan fydd gan aelod hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

**2.2.** Roedd y cyfnodau o absenoldeb a gyflwynwyd fel a ganlyn.
• Absenoldeb mamolaeth 26 wythnos
• Absenoldeb newydd-anedig 2 wythnos
• Absenoldeb mabwysiadu 2 wythnos
• Absenoldeb mabwysiadu newydd 2 wythnos
• Absenoldeb rhiant 3 mis

**2.3.** Ac eithrio'r cyfnod mwyaf ar gyfer absenoldeb mabwysiadu, mae'r rheoliadau'n parhau i fod yn unol â'r trefniadau ar gyfer swyddogion. Fodd bynnag, mae'r cyfnod sylfaenol o absenoldeb mabwysiadwyr sydd ar gael i swyddogion bellach yn 26 wythnos ac felly mae angen newid yr absenoldeb mabwysiadu presennol o 2 wythnos sydd ar gael i aelodau i 26 wythnos i gyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Am y rheswm hwn, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu diwygio rheoliadau 2013 i gynyddu hawl y mabwysiadydd i fod yn absennol o bythefnos i 26 wythnos. Bydd hyn yn golygu y bydd yr un faint o absenoldeb mamolaeth ag o absenoldeb mabwysiadu ar gael o dan reoliadau 2013.

**2.4.** Yn ogystal, bydd newidiadau cysylltiedig i'r rheoliadau yn:
• Creu gweithdrefnau ar gyfer caniatáu i aelod o awdurdod lleol amrywio dyddiad dechrau'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu a hyd y cyfnod hwnnw
• Darparu y caiff cyfnod o absenoldeb mabwysiadu ddechrau ar y diwrnod y lleolir y plentyn gyda'r aelod o awdurdod lleol i'w fabwysiadu neu hyd at 14 diwrnod cyn hynny. Caiff aelod o awdurdod lleol ddewis ar ba un o'r dyddiau hyn y bydd ei absenoldeb mabwysiadu yn dechrau.
• Creu gweithdrefn i aelod o awdurdod lleol ddod â'i absenoldeb mabwysiadu i ben
• Atal cymryd cyfnodau lluosog o absenoldeb mabwysiadu ar gyfer plant a fabwysiadwyd o dan yr un trefniant.
• Caniatáu i unigolion sy'n cymryd caniatâd mabwysiadu barhau â rhai dyletswyddau gyda chydsyniad cadeirydd neu aelod llywyddol yr awdurdod lleol.

**3.0 Argymhelliad**
**3.1.** Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori, ac awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ymateb mewn yngynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**09 Tachwedd, 2020**